fda CYMRU|WALES

**Drwy E-bost** 6 Tachwedd 2020

Annwyl Helen Mary Jones

**Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Fi yw Swyddog Cenedlaethol yr undeb sy'n cynrychioli uwch reolwyr a gweithwyr proffesiynol yn Amgueddfa Cymru (AC) a Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LlGC) ac rwy'n ysgrifennu atoch yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd.

Cyflwynodd FDA Cymru dystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor i effaith yr achosion o COVID-19 ar dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau yng Nghymru. Roedd ein tystiolaeth yn dangos sut mae'r gostyngiad sylweddol mewn refeniw ymwelwyr – yr amcangyfrif ar hyn o bryd yw £1.8 miliwn ar gyfer AC, a £600,000 ar gyfer LlGC – wedi dwysáu sefyllfa ariannol enbydus y ddau sefydliad.

Mae dau ffactor arall sy'n gysylltiedig â COVID-19 wedi cynyddu'r pwysau ariannol:

1. Mae cymorth grant 2020 wedi cael ei dynnu'n ôl yn ystod y flwyddyn: **£440,000** ar gyfer AC, a **£200,000** ar gyfer LlGC.
2. Mae'r ddau sefydliad wedi wynebu costau annisgwyl ychwanegol er mwyn darparu offer i staff weithio gartref, a pharatoi safleoedd i ailagor: **£75,000** ar gyfer LlGC, a chyfanswm cyfunol o **£250,000** ar gyfer saith safle AC.

Erbyn hyn, mae FDA Cymru hefyd yn deall na fydd y naill sefydliad na'r llall yn elwa ar unrhyw ran o'r pecyn adfer diwylliannol sy'n werth £59 miliwn. Mae hynny'n hynod siomedig ac yn ergyd bellach i'r sefydliadau.

Heb gyllid ychwanegol ar ffurf cymorth grant, mae'n anodd gweld sut gall AC a'r LlGC fwrw ymlaen â'r gwaith ar brosiectau cynnal a chadw cyfalaf hanfodol. Mae cyfanswm cyfunol y gwaith cynnal a chadw cyfalaf ar gyfer Amgueddfa Cymru yn unig dros **£80 miliwn** erbyn hyn, ac mae tua un rhan o bump yn waith hanfodol a brys.

Mae'r pwysau ariannol hefyd yn peryglu gallu AC a'r LlGC i ddigidoleiddio cynnwys, a drwy hynny i wneud casgliadau cenedlaethol yn fwy hygyrch i ddinasyddion ledled Cymru.

Mae’r Adolygiad Pwrpasol o’r Llyfrgell Genedlaethol, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cydnabod nad yw’r model cyllido presennol yn gynaliadwy. Yn wir, fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae graddfa diffyg ariannol y Llyfrgell Genedlaethol yn peryglu hyd at **30 o swyddi, neu 13% o’r gweithlu**.

Mae’n anodd asesu gwerth AC a’r LlGC mewn termau economaidd, ond roedd Cynllun Gweithredol 2018/19 Amgueddfa Cymru yn cyfrifo bod pob £1 y mae Llywodraeth Cymru yn ei buddsoddi yn AC yn cynhyrchu £4 o wariant ychwanegol yng Nghymru. **Mae hynny’n cyfrannu £83 miliwn o Werth Ychwanegol Gros (GVA) at economi Cymru** – dyna yw’r GVA uchaf ar gyfer unrhyw sefydliad diwylliannol sy’n derbyn arian cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r ddau sefydliad yn rhan o wead hanes diwylliannol Cymru a rhaid eu gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Er y byddai un chwistrelliad ariannol i’w groesawu, ni fydd hynny’n datrys y problemau hirdymor a achoswyd gan ddiffygion strwythurol.

Roedd adroddiad eich Pwyllgor ar effaith COVID-19 ar dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau yng Nghymru, yn cydnabod bod sefyllfa ariannol enbydus y ddau sefydliad wedi gwaethygu yn sgil y pandemig. **Mae FDA Cymru eisoes wedi galw ar Weinidogion i weithredu argymhellion yr adroddiad.**

**Mae FDA Cymru hefyd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i unioni dros ddegawd o doriadau i gymorth grant, drwy gyflwyno model cyllido newydd a chynaliadwy. Model cyllido sy’n seiliedig ar gynnydd sylweddol mewn cymorth grant. Model cyllido i gefnogi diwylliant Cymru ac i ddiogelu swyddi yng Nghymru.**

Hoffwn drafod y mater hwn gyda'ch pwyllgor, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai rhywun o'ch swyddfa gysylltu â mi i drefnu cyfarfod.

Yn gywir

**Gareth Hills**
**Swyddog Cenedlaethol FDA Cymru**